

CYFARFOD Y CYNGOR – 18 Hydref 2017

**DIWYGIAD I'R RHYBUDD O GYNNIG FEL A NODIR YN EITEM 10(2) AR
AGENDA'R CYNGOR**

Yn unol â rheol dull gweithredu 10.4.1 o Ran 4 Cyfansoddiad y Cyngor, dyma ddiwygiad i'r Rhybudd o Gynnig fel a nodir yn eitem 10(2) ar agenda'r Cyngor gan y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol Jack Harries a Susan Morgans:-

Dileu - Bod y Cyngor hwn yn cynnal gwerthusiad opsiynau gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r opsiynau trafndiaeth i wasanaethu ac i wella cysylltiadau â Chwm Rhondda Fach, [Mewnosod – Bod y Cyngor hwn yn parhau i gynnal gwerthusiad opsiynau trafndiaeth i wasanaethu ac i wella cysylltiadau â Chwm Rhondda Fach yn rhan o'r gwaith cynllunio trafndiaeth rhanbarthol.] Mae Cynllun Datblygu Lleol y Cyngor wedi diogelu coridor o fuddiant i ddarparu estyniad ar gyfer ffordd liniaru Cwm Rhondda Fach, tra bod Llywodraeth Cymru wedi addo, o dan drefniant â Phlaid Cymru, i [Mewnosod – archwilio. Dileu - ystyried] estyn y gwasanaeth Metro i'r gymuned honno. Dyma'r adeg i gadarnhau'r cynigion hyn ar ôl ymgynghori â chymunedau Cwm Rhondda Fach, yn enwedig y Maerdy a Glynrhedynog.

Ychwanegu – Bod y Cyngor yn parhau i weithio gyda chydweithwyr Llywodraeth Cymru i ddarparu Metro De Cymru a gwelliannau trafndiaeth ehangach ar gyfer cymoedd y Rhondda Fach a'r Rhondda Fawr.

Bydd y cynnig wedi'i ddiwygio yn darllen:

Bydd y Cyngor hwn yn parhau i gynnal gwerthusiad opsiynau trafndiaeth i wasanaethu ac i wella cysylltiadau â Chwm Rhondda Fach yn rhan o'r gwaith cynllunio trafndiaeth rhanbarthol. Mae Cynllun Datblygu Lleol y Cyngor wedi diogelu coridor o fuddiant i ddarparu estyniad ar gyfer ffordd liniaru Cwm Rhondda Fach, tra bod Llywodraeth Cymru wedi addo, o dan drefniant â Phlaid Cymru, i archwilio estyn y gwasanaeth Metro i'r gymuned honno. Dyma'r adeg i gadarnhau'r cynigion hyn ar ôl ymgynghori â chymunedau Cwm Rhondda Fach, yn enwedig y Maerdy a Glynrhedynog.

Bydd y Cyngor yn parhau i weithio gyda chydweithwyr Llywodraeth Cymru i ddarparu Metro De Cymru a gwelliannau trafndiaeth ehangach ar gyfer cymoedd y Rhondda Fach a'r Rhondda Fawr.

Jack Harries (Y Maerdy)

Susan Morgans (Glynrhedynog)